Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y mab wnaeth wrthryfela



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Alastair Paterson; Lazarus

addaswyd gan: Ruth Klassen; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Iesu wrth ei fodd yn dweud wrth bobl am faddeuant Duw.

Ond roedd yr arweinwyr crefyddol yn cwyno ei fod yn ffrindiau gyda phobl oedd yn gwneud pethau drwg.



Felly dywedodd Iesu tair stori i ddangos bod pechaduriaid sy'n dweud bod nhw'n sori yn gwneud Duw yn hapus.

Roedd y stori gyntaf am ddyn gyda chant o ddefaid. Aeth un ar goll.

Gadawodd y bugail y naw deg naw

yn syth a mynd i chwilio am y ddafad oedd ar goll.


Chwiliodd a chwiliodd y bugail nes iddo ddod o hyd i'r ddafad. Yna rhoddodd hi ar
ei ysgwyddau a'i chario adref yn llawen.

Dywedodd wrth ei ffrindiau, “Dewch i ddathlu, achos rwyf wedi dod o hyd i’m dafad.”

Eglurodd
Iesu fod yna
ddathlu mawr
yn y nefoedd
pan mae un
'pechadur'
yn edifarhau.

Ystyr edifarhau ydy bod mor sori am y pethau drwg yn ein bywyd fel bod ni'n stopio gwneud y pethau hynny.

Roedd stori nesaf Iesu am wraig a deg darn arian. Efallai mai dyma'r holl arian roedd hi wedi ei arbed yn ystod ei bywyd.

Digwyddodd rhywbeth ofnadwy - collodd un o'r darnau arian!

Brwsio! Brwsio! Brwsio!
Edrychodd y wraig ym mhobman.

O'r diwedd daeth o hyd i'r darn arian. Roedd hi'n hapus iawn. Beth wnaeth hi, dych chi'n meddwl?



Ie, dywedodd wrth ei holl ffrindiau.



Dywedodd Iesu eto, "Mae'r angylion yn dathlu pan mae un pechadur yn edifarhau."

Ond stori olaf Iesu oedd y tristaf. Dywedodd hanes dyn adawodd gartref ei dad.

Gwastraffodd ei holl arian mewn gwlad bell. Nawr beth allai e wneud? Ac i wneud pethau'n waeth, roedd prinder

bwyd yn y wlad. Gallai'r bachgen farw o newyn.

Cafodd y bachgen waith yn gofalu am foch. Ond doedd neb yn rhoi bwyd iddo fe. Cafodd ei demtio i fwyta bwyd y moch.



O'r diwedd, calliodd y bachgen. "Mae hyd yn oed y gweision yn bwyta'n dda gartref," meddyliodd.



“Af i adre at
dad a dweud
mod i’n sori.
Dw i ddim yn
haeddu cael
fy ngalw’n fab
iddo bellach.



Gobeithio y bydd e'n barod i roi gwaith i mi fel gwas."

Gwelodd ei dad e'n dod pan oedd e dal yn bell iawn i ffwrdd.

Rhedodd y tad yn llawen at ei fab.
Rhoddodd gusan i'r bachgen a'i gofleidio.



“Dad, rydw i wedi pechu. Dydw i ddim yn haeddu cael bod yn fab i ti.” Roedd y bachgen am ofyn i’w dad ei gyflogi fel gwas.



Ond torrodd y tad ar ei draws. "Ewch i nôl mantell, yr un orau, a modrwy. A pharatowch barti mawr."

Dyna barti gwych! Parti i ddathlu bod y mab oedd ar goll wedi dod yn ôl.

Dywedodd Iesu'r stori hon er mwyn dangos fod Duw wrth ei fodd yn derbyn 'pechaduriaid' sy'n edifarhau ac yn troi ato.

Y mab wnaeth wrthryfela

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Luc 15

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16